Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Y Gangen Dŵr
Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Diolch i chi am y cyfle i wneud sylwadau ar Ganllawiau Cymdeithasol a'r Amgylchedd arfaethedig Llywodraeth Cymru i Ofwat. Rydym wedi croesawu'r cyfle i drafod drafftiau cynnar o'r ddogfen hon gyda'ch swyddogion dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r dull a amlinellir yn y Canllawiau, yn benodol:

- Y polisïau amgylcheddol a amlinellir yn adran 6
- Y ffocws ar wella'r gallu i wrthsefyll peryglon naturiol
- Y pwyslais ar asesiad o'r risgiau i asedau a seilwaith cwmnïau oherwydd llifogydd ac erydu arfordirol
- Yr ymgais i wella dealltwriaeth y cwmnïau dŵr o asedau o safbwynt seilwaith carthffosiaeth.

Rydym wedi nodi meysydd lle rydym yn credu y gallai'r canllawiau gael eu cryfhau a darparu mwy o eglurder:

Para 2.16 Dylai'r cyfeiriad at 'beryglon naturiol' gael ei ehangu i gynnwys pob perygl gan gynnwys, er enghraifft, fandaliaeth.

Para 2.17 Dylid ehangu'r adran hon i gynnwys ariannu prosiectau arbrofol i hwyluso atebion i broblemau ar draws dalgylchoedd, yn unol â dull rheoli ar lefel yr ecosystem Llywodraeth Cymru. Mae cynnwys treialon o'r fath, o wahanol ddulliau o gymell rheolwyr tir i wella arferion rheoli, yn ddefnyddiol, gan y gallent fod o fudd sylweddol i ansawdd dŵr, tra’n lleihau'r angen am fuddsoddiad seilwaith ychwanegol gan gwmnïau dŵr hefyd.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Para 2.18 Mae angen ehangu'r adran hon i fynd i'r afael â heriau diffyg cydamseru amserlenni prosesau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a PR14. Dylai'r canllawiau i Ofwat ei gwneud yn glir bod cyllid priodol ar gael i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn gallu cyflwyno mesurau priodol i gyfrannu at statws ecolegol da. Ar ben hynny, dylid rhoi cyfarwyddyd i Ofwat gymeradwyo'r dull "rheoli ansicrwydd" a argymhellir gan y rheoleiddwyr amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr.

Para 4.16 Mae angen cyfeiriad at reoli perygl llifogydd yn yr adran hon ochr yn ochr ag 'adnoddau dŵr, ansawdd dŵr yfed ac ystyriaethau amgylcheddol'.

Para 6.2 Rydym yn cefnogi bwriad y polisi i gynyddu gwaith monitro asedau cwmnïau dŵr. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r adran hon yn gliriach ynghylch maint a chwmpas y monitro sydd ei angen. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid mwy o fonitro asedau ysbeidiol i alluogi mwy o sicrwydd ar gyfer cynllunio a chaniatáu i gwmnïau gynyddu eu dealltwriaeth o'r modd y gweithredir eu gollyngiadau ysbeidiol. Byddem yn croesawu cyfarwyddyd clir i Ofwat gan Lywodraeth Cymru.

Para 6.47 Dylid cyfeirio at y Gyfarwyddeb Llifogydd yn yr adran hon. Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod gofynion i reoli perygl llifogydd o bob ffynhonnell er mwyn lleihau canlyniadau llifogydd ar iechyd pobl, gweithgarwch economaidd a'r amgylchedd. Mae cwmnïau dŵr yn allweddol yn hyn o beth.

Rydym yn teimlo y dylai'r adrannau ar lifogydd a gwydnwch fod yn fwy gweithredol. Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cyfarwyddyd i Ofwat ar sut maent yn edrych ar rôl cwmnïau o fewn y datganiadau hyn, er enghraifft: Sicrhau bod cwmnïau'n cyfrannu at gynllunio argyfwng.

Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd hefyd yn hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd i reoli perygl llifogydd o bob ffynhonnell a sicrhau nad oes unrhyw rwystrau rheoliadol i gwmnïau sy'n gweithio gydag awdurdodau rheoli risg i gynllunio a darparu atebion tymor hir.

Yn ychwanegol at yr uchod, rydym am gyflwyno'r sylwadau canlynol:

- Nid yw dyletswydd Cwmnïau Dŵr (adran 94 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991) i "ddraenio'n effeithlon" wedi'i chynnwys yn y canllawiau drafft. Mae hwn yn faes pwysig o'u gwaith gan mai dyna sy'n eu gwneud yn awdurdodau rheoli risg.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

- Byddai'n fuddiol cyfeirio at gefnogaeth, o fewn y canllawiau, ar gyfer y Fframwaith Strategaeth Draenio ddiweddar ac awydd i weld sut mae cwmnïau yn dangos sut y maent yn mynd i gyflawni ei gofynion.

- Er bod rhywfaint o waith ardderchog wedi cael ei wneud gan y cwmnïau dŵr i ddeall perfformiad eu rhwydweithiau mewn rhai lleoliadau (e.e. Llanelli a Thre-gŵyr), mae rhagor o waith i'w wneud yn hyn o beth. Byddai'n fanteisiol pe gallai'r canllawiau gynnwys cyfeiriad at y maes pwysig hwn o'u gwaith a'r angen i ystyried effaith pwysau yn y dyfodol yn sgil datblygu a mabwysiadu atebion arloesol (e.e. cynlluniau dylunio trefol sy’n sensitif i ddŵr).

Rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau uchod yn ddefnyddiol. Os hoffech drafod unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd uchod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru cysylltwch â Mark Squire: mark.squire@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk yn y lle cyntaf.

Yr eiddoch yn gywir,

**Ceri Davies**
Pennaeth Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio
Cyfoeth Naturiol Cymru